

Ffair Nadolig Seilo

Roedd rhes hir o bobl yn aros i ddrysau Theatr Seilo agor am 1 o'r gloch prynhawn Dydd Iau, Tachwedd 14eg. Roedd amryw ohonynt wedi bod yn syllu ar ffenestr Siop Ddodrefn Perkins, yng nghanol y dre. Bu Mr Perkins mor garedig a pharod ag arfer i fenthyg eu ffenest i ni am bythefnos, a sylwodd nifer fawr o bobl bod anrhegion a danteithion Nadolig gwerth chweil i'w cael am bris rhesymol yn y Ffair. Pan agorwyd y drysau, dyma'r dyrfa yn llifo i mewn. O'u blaen roedd byrddau yn llawn o anrhegion o safon uchel, y rhan fwyaf ohonynt yn newydd sbon danlli, ac yn wir, roedd bargeinion ardderchog ar gael gan chwirydd glandeg Seilo! Anelu at y stondin gacennau a chynnyrch cartref wnaeth rhai ar eu hunion, er mwyn gwneud yn siwr o'u pwddin Dolig blasus. Roedd yr amrywiaeth o gacennau, o fara brith o bob maint, i'r "cup cakes" wedi eu haddurno'n ddigon o ryfeddod, yn werth eu gweld, ac yn glod i'r holl ferched fu wrthi'n brysur cyn y ffair. Dyna i chi'r stondin gwaith llaw wedyn, yn llawn dillad plant bach wedi eu gwau mor ofalus a medrus, bagiau a ffedogau cwbl unigryw, cardiau at bob achlysur, ac adran arbennig addurniadau Nadolig gwreiddiol a gwahanol, cystal a welwyd mewn unrhyw ffair grefftau.

Ar ganol llawr y Theatr, roedd byrddau yn orlawn o fasgedi a bocsus lliwgar oedd yn cynnwys amrywiaeth o ddanteithion, oedd yn wledd i'r llygaid heb son am y bol! Dyma stondin y gweinidog, y Parch Gwenda Richards, a fu mor ddiwyd cyn ac yn ystod y Ffair. Erbyn tua 4 o'r gloch pawns, roedd y basgedi wedi mynd a'r byrddau bron yn wag. Cyn gadael, roedd cyfle i gael ychydig o hwyl wrth y bwrdd tombola lle roedd pawb yn derbyn gwobr, yna roedd cyfle am sgwrs uwchben paned a mins pei, a phawb yn falch o gael seibiant ac eistedd i lawr a chymdeithasu wedi'r gwario. Rhaid cydnabod y bu i sawl un o'r dynion dorchi llewys i helpu yn ystod y dydd, ond Pwyllgor Gwaith y Merched a fu'n gweithio'n galed er sicrhau llwyddiant y Ffair yn Seilo.

Llongyfarchiadau i'r Pwyllgor gweithgar ar lwyddiant ysgubol y Ffair eleni. Gwnaed elw o £4,206:34, a hynny i gyd mewn rhyw dair awr a hanner o amser! Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at y llwyddiant hwn, Siop Perkins a'r Parch Gwenda Richards yn arbennig, ac wrth gwrs, i bawb a ddaeth draw atom i wario. Edrychwn ymlaen at eich gweld i gyd eto y flwyddyn nesaf! Nadolig Llawen i chi i gyd!

Edwina Morgan (Ysgrifennydd)